# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fercher 16eg o Fedi am 8.00yh drwy Zoom.

**PRESENNOL:** Cyng H James, W Evans, G Evans, J Phillips, R Gallie a K Bowen (clerc)

**YMDDIHEURIADAU**: Cyng D Lewis, J Lewis (CSC)

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion CCB 21ain o Fai 2019 a derbyniwyd yn gywir.

**MATERION YN CODI**: Dim

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

Trafododd y Cyngor yr adroddiad ariannol

Cyfrif Trysorydd £6809.97

Cyfrif Busnes £3754.74

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo yr adroddiad ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020.

**ETHOL CADEIRYDD:**

Gwnaeth y Cynghorwyr ethol Cyng R Gallie fel Cadeirydd.

**ETHOL IS-GADEIRYDD:**

Gwnaeth y Cynghorwyr ethol Cyng G Evans fel Is-Gadeirydd.

**APWYNTIO PWYLLGORAU NEWYDD:**

Etholwyd y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Cyng H James i eistedd ar y pwyllgor Hawliau Ffyrdd.

Etholwyd y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Cyng D Lewis i eistedd ar y pwyllgor Asedau.

Roedd y rheolau sefydlog a’r rheolau ariannol priodol mewn lle.

Mae y rhestr o dir a asedau wedi ei diweddaru i gynnwys pryniant cae chwarae Blaenwaun.

Mae’r yswiriant yn briodol.

Roedd aelodaeth y Cyngor o gyrff eraill yn gyfamserol.

Nid oedd eisiau unrhyw newidiadau i drefn cwynion y Cyngor.

Roedd trefniadau y Cyngor i ddelio efo ceisiadau a wnaed dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a’r Rheol Diogelu Data Cyffredinol 2018 yn gyfamserol.

**CYFLOG Y CLERC:**

Gwnaeth y Cynghorwyr gymeradwo codi cyflog y clerc i £1,500 am 2020/21.

**ASESIAD RISG:**

Cafodd yr asesiad risg ei adolygu gan y Cyngor. Yn dilyn awgrym gan yr archwilydd mewnol penderfynwyd defnyddio storio cwmwl fel mesur diogelwch ar gyfer dogfennau electronig y Cyngor yn ychwanegol i'r 'hard drive' allanol sy'n cael ei ddefnyddion ar y funud.